- cyflogwr sydd wedi ymrwymo i fod yn hyderus o ran anabledd
- cyflogwr sydd yn gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog
- ymwybodol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i ddileu unrhyw rwystrau at gyflogaeth
- ymrwymo i gefnogi pobl ifanc sydd yn gadael ein gofal i gael cyfleoedd newydd a phrofiad.



PROFFIL Y SWYDD

TEITL Y SWYDD: Swyddog Iechyd a Diogelwch – Plant a Phobl Ifanc

CYFEIRNOD SWYDD: RHS002

GRADD: BAND J SCP 35 – SCP 39 (£43,421 i £47,420)

ORIAU: 37 yr wythnos

PATRWM GWAITH: Dydd Llun i Ddydd Iau 9am - 5pm, Dydd Gwener 9am - 4.30pm. Fodd bynnag, bydd angen bod yn hyblyg gan weithio gyda'r hwyr ar adegau a dros y penwythnos er mwyn cwrdd â gofynion y swydd a meysydd gwasanaeth y Gyfarwyddiaeth.

LLEOLIAD: Bydd angen gweithio'n ystwyth ar draws ysgolion a Neuadd y Sir, Brynbuga. Nodwch y gall hyn newid yn y dyfodol os oes angen newid lleoliad y gwasanaeth. Ni fydd treuliau adleoli yn cael eu talu os yw hyn yn digwydd.

GWIRIAD GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS): Oes

YN ATEBOL I: Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

ASESIAD O'R GYMRAEG:

Byddai Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

Y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc – Pwy ydym ni?

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn risg i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn risg. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

Ein Diben:-

“Er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, mae'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu ystod o wasanaethau cymorth ar gyfer ysgolion yn cynnwys derbyn, cyllid, gwella ysgolion a chymorth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.”

Pwrpas y swydd hon:-

Mae cadw staff, disgyblion ac eraill y gall gweithgareddau a chyfleusterau'r Cyngor effeithio arnynt yn ddiogel yn flaenoriaeth. Fel yr arweinydd iechyd a diogelwch ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, byddwch yn cynghori, llywio a chefnogi rheolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol wrth reoli iechyd a diogelwch. Gan

hyrwyddo'r agenda iechyd a diogelwch, byddwch yn rhoi cyngor ac arweiniad cymwys a phroffesiynol iddynt i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion deddfwriaethol a pholisi'r Cyngor.

Drwy arweinyddiaeth iechyd a diogelwch cryf, cefnogaeth, hyfforddiant a dull gweithredu rhagweithiol, byddwch yn cynorthwyo wrth ymwreiddio diwylliant iechyd a diogelwch cryf ar draws yr Awdurdod.

Disgwyliadau a chanlyniadau swydd hon:

Gan weithio fel rhan o'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, byddwch yn gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol i sicrhau bod trefniadau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn ddigon cadarn ac y caiff unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth eu dynodi ac yr eir i'r afael â nhw wedyn.

Gyda sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, bydd angen i chi ddangos y gallu i flaenoriaethu gwahanol dasgau a llwyth gwaith i alinio gyda thargedau a dyddiadau cau y gwasanaeth.

Eich cyfrifoldebau yw:-

Iechyd a Diogelwch

1. Gweithio fel rhan o'r tîm iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddiogelu a hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant staff, disgyblion ac eraill y mae gweithgareddau a chyfleusterau'r Cyngor yn effeithio arnynt.
2. Ymgymryd â rôl person cymwys, ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl ifanc, yn cynnwys ysgolion fel yr amlinellir yn Rheoliad 7 Rheoliadau Rheoli Iechyd, Diogelwch a Llesiant.
3. Rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad cymwys a gyda ffocws ar risg i reolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau swyddogol, polisi'r Cyngor ac arfer gorau.
4. Hyrwyddo a sicrhau arferion gwaith diogel drwy roi cyngor, cymorth ac arweiniad i staff.
5. Cefnogi datblygu, adolygu a diweddarau polisiau ac arweiniad y Cyngor ar iechyd a diogelwch.
6. Rhoi cymorth i reolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol wrth gynnal asesiadau risg a rhoi cyngor cymwys ar gyfer cwblhau asesiadau risg cymhleth gan gynnig datrysiadau ac argymhellion pragmatig a chymesur fel sy'n briodol.
7. Cynnal archwiliadau, arolygiadau a gweithgareddau monitro wedi eu cynllunio ac ad-hoc ar iechyd a diogelwch ar holl ystod llawn gweithrediadau a gweithgareddau'r Cyngor yn cynnwys y rhai a wneir gan drydydd parti, i sicrhau y caiff risgiau eu cyfathrebu'n addas ac y caiff mesurau rheoli eu

gweithredu'n effeithiol. Cynorthwyo rheolwyr wrth ffurfio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

8. Rhoi adroddiad am faterion a ddynodwyd drwy'r broses fonitro ar gyfer eu datrys.
9. Monitro iechyd a diogelwch fel mater o drefn ar draws y Gyfarwyddiaeth, gan roi cymorth i leihau, dileu neu rheoli risgiau a pheryglon a ddynodwyd.
10. Cymryd rhan weithgar yn y broses rheoli diogelwch, troeon diogelwch, cyfarfodydd staff a Llywodraethwyr fel sydd angen.
11. Adolygu adroddiadau o ddamweiniau cysylltiedig â gwaith, damweiniau fu bron â digwydd, afiechyd cysylltiedig â gwaith a digwyddiadau o drais y gwaith, gan gynnal dadansoddiad o ddata i fynd i'r afael ag unrhyw dueddiadau, ymchwilio unrhyw fethiannau iechyd a diogelwch sylweddol, dynodi ffactorau sy'n cyfrannu ac achosion gwraidd a rhoi adroddiad ar y canfyddiadau.
12. Gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol i sicrhau y caiff digwyddiadau perthnasol eu hysbysu'n brydlon i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan RIDDOR (Rheoliadau Adrodd Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Perygl).
13. Cefnogi rheolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol cyn ac yn ystod ymyriadau gan reoleiddiwr (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/Swyddog Tân) ac wrth ymateb i argymhellion y rheoleiddir a/neu gamau gorfodi.
14. Cynorthwyo gyda datblygu a chynnal systemau iechyd a diogelwch a sicrhau y caiff yr holl gyngor ac arweiniad a roddir, arolygiadau, ymweliadau a chamau gweithredu eu cofnodi'n briodol a lle bo angen gasglu tystiolaeth addas.
15. Datblygu arbenigedd ar bynciau iechyd a diogelwch fel sydd angen e.e. straen cysylltiedig â gwaith, dirgryniad, rheoli contractwyr, diogelwch tân, rheoli asbestos a legionella.
16. Cynghori ar oblygiadau a dehongliadau o ddeddfwriaeth gyfredol, newydd ac arfaethedig ar iechyd a diogelwch.
17. Cynnal ymchwiliadau a pharatoi adroddiadau fel sydd angen. Gall hyn gynnwys arwain ar weithgareddau ymchwilio damweiniau risg uchel, paratoi adroddiadau ar gyfer Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth, y Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, fforymau cyflogeion neu arall neu grwpiau iechyd a diogelwch lleol.
18. Cynrychioli'r awdurdod yn ystod ymchwiliadau, cwestau ac mewn trafodion cyfreithiol fel bo angen.

Hyfforddiant

19. Cynorthwyo rheolwyr a phenaethiaid ysgol i gynnal asesiadau o anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch cyflogeion.
20. Gweithio gyda rheolwyr a phenaethiaid ysgol i ddynodi strategaethau gwella, hyfforddiant ac anghenion datblygu yn deillio o ddadansoddiad o ystadegau ar ddamweiniau, anghenion adrannol, deddfwriaeth newydd a chyfarwyddyd swyddogol.
21. Datblygu a chyflwyno hyfforddiant o fewn meysydd arbenigedd, sy'n diwallu goblygiadau statudol y Cyngor ac sy'n adlewyrchu'r lefel o ddealltwriaeth a dysgu sydd ei angen gan gyflogeion ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad.
22. Mesur sicrwydd ansawdd hyfforddiant iechyd a diogelwch a ddarperir yn fewnol a gan drydydd parti i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol, canllawiau swyddogion a pholisi'r Cyngor.

Datblygu'r Gweithlu a Llesiant

23. Arwain wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni ac ymgyrchoedd ar iechyd, diogelwch a llesiant i godi ymwybyddiaeth o ofynion iechyd a diogelwch a gwella cydymffurfiaeth.
24. Gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth, penaethiaid ysgol a chydweithwyr adnoddau dynol i ddynodi blaenoriaethau iechyd, diogelwch a llesiant a chynorthwyo wrth ddatblygu cynlluniau a chofrestri risg gwasanaeth fel sydd angen.
25. Paratoi adroddiad blynyddol ar iechyd, diogelwch a llesiant ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.
26. Gweithio gyda rheolwyr a darparwydd gwasanaeth iechyd galwedigaethol y Cyngor i sicrhau y caiff gofynion goruchwyliaeth iechyd eu hateb.
27. Gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth a phenaethiaid ysgol i sicrhau fod gweithgareddau cynefino iechyd a diogelwch yn ddigon cadarn.
28. Mynychu cyfarfodydd a fforymau iechyd a diogelwch fel sydd angen, yn cynnwys Grŵp Iechyd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a chydlynu gyda chynrychiolwyr undebau llafur ac asiantaethau allanol ar faterion iechyd a diogelwch fel sydd angen.
29. Llanw dros Swyddogion Iechyd a Diogelwch eraill pan fo angen e.e. pan maent ar wyliau blynyddol neu heb fod ar gael am reswm arall.
30. Datblygu, gweithredu a monitro cynllun olyniaeth i roi'r cyfle gorau posibl i gydweithwyr i wella, sicrhau cynnydd ac i'r gwasanaeth fod yn gydnerth a chynaliadwy.

31. Cydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor a'i hyrwyddo bob amser.
32. Cadw'n gyfoes gyda gwybodaeth, datblygiadau a deddfwriaeth yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a meysydd gwaith eraill perthnasol e.e. safonau Prydeinig, arfer rheoli gorau.
33. Dilyn hyfforddiant gloewi a diweddarau fel sydd angen.
34. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur gyda gradd y swydd.

Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-

- Y cyfle i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg.
- Cefnogaeth lawn y Cyngor fel cydweithiwr gwerthfawr.
- Rheolwr llinell cefnogol a hyblyg yn y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Cefnogaeth gan gydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc yn ehangach gyda chydweithio i sicrhau canlyniadau rhagorol. Cronni adnoddau a chael mynediad i arbenigedd mewnol lle'n bosibl, ac
- Amgylchedd gwaith dymunol a'r gallu a'r rhyddid i weithio'n ystwyth.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad clir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwylwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwylwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltwn gyda'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.

Hyblygrwydd: Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon pob rhyngweithio.

Yn ychwanegol at hyn:

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ymysgu yn y Gweithle ac mae disgwyl i'r holl weithwyr i gydymffurfio gyda hyn.



Manyleb Person

Sut fyddwn ni yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y swydd hon?
Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

GOFYNION	PWYSOLI Hanfodol, dymunol	SUT Y CAIFF HYN EI BROFI
1. Addysg / Cymwysterau / Gwybodaeth		
1.1 Cymhwyster i lefel gradd mewn maes pwnc perthnasol neu brofiad cyfwerth,	Hanfodol	Ffurflen gais, cyfweiliad
1.2 Cymhwyster perthnasol mewn lechyd a Diogelwch e.e. Diploma NEBOSH (caiff ymgeiswyr eithriadol sy'n gweithio at gymhwyster lechyd a Diogelwch eu hystyried)	Hanfodol	Ffurflen gais
1.3 Dealltwriaeth helaeth, gwybodaeth a phrofiad o gyfraith iechyd a diogelwch gyfredol, arferion gorau a pholisïau a gweithdrefnau	Hanfodol	Cyfweiliad
1.6 Dealltwriaeth o'r materion sydd yn effeithio ar Lywodraeth Leol a'r rhyng-gysylltiadau gyda rhanddeiliaid eraill, Undebau Llafur, Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, Gwasanaeth Tân, ac yn y blaen	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweiliad
1.7 Cymhwyster hyfforddiant	Dymunol	Ffurflen gais
2. Profiad		
Profiad o weithio mewn awdurdod lleol a/neu leoliad sector cyhoeddus eraill i deall yn llawn y cysylltiadau gydag adrannau perthnasol	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweiliad
Darparu cyngor a chanllawiau i reolwyr, goruchwylwyr a'r gweithlu ar ofynion hyfforddi iechyd a diogelwch	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweiliad
Datblygu neu wella prosesau, systemau a gweithdrefnau er mwyn cefnogi'r cyfrifoldebau sydd wedi eu hamlinellu ar gyfer y swydd hon.	Dymunol	Ffurflen gais, Cyfweiliad
Dadansoddi a dehongli data, gofynion deddfwriaethol a gwybodaeth arall; er mwyn llywio datrysiadau ymarferol ac arloesol.	Hanfodol	Ffurflen gais
Cynnal ymchwiliadau a'n gwneud argymhellion priodol.	Hanfodol	Ffurflen gais
Profiad o gyflwyno hyfforddiant.	Hanfodol	Ffurflen gais
Datblygu cynlluniau olyniaeth gweithlu, hyfforddiant a datblygu	Dymunol	Ffurflen gais
3. Sgiliau Cyfathrebu / Rhyngbersonol		
Chwaraewr tîm ardderchog gyda phrofiad amlwg a'r gallu i ysgogi a chreu angerdd ymhlith staff.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweiliad

Medru dadansoddi a throsi data i mewn i adroddiadau perthnasol ac i amrywiaeth eang o dimau	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Sgiliau cyfathrebu a delio gyda phobl sydd yn ardderchog gyda'r gallu i fynegi gwybodaeth gymhleth ar bob lefel, ar lafar ac yn ysgrifenedig	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Ffocws ar ddarparu a'n medru gweithio yn annibynnol ond hefyd mewn tîm, yn ysgogi pobl i ddatblygu a darparu pwrpas ac amcanion cyffredinol a rennir.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
4. Doniau a Sgiliau		
Sgiliau rhyngbersonol ardderchog, deallusrwydd emosïynol a hunanymwybyddiaeth,	Hanfodol	Cyfweliad
Cyfarwydd gydag ystod o becynnau cyfrifiadurol ac awch am gyfleoedd a gwelliannau digidol.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Gallu i ddylanwadu, negodi a herio'n adeiladol er mwyn sicrhau datrysiadau arloesol, cynhyrchiol a mesuradwy.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Gallu i fod yn hunan-ddisgybledig a'n gosod blaenoriaethau, rheoli cynnydd a'n gweithio o fewn amserlenni anodd	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Rhaid bod yn hyblyg, yn fodlon gweithio y tu hwnt i oriau craidd er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth a gofynion y Cyngor e.e. ymateb i argyfyngau, boed ar alw pan fydd angen.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
Bodlon cydymffurfio gyda Pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad
5. Gofynion Ychwanegol		
Medru gweithio oriau hyblyg o leoliadau gwahanol, er mwyn cwrdd â gofynion y gwasanaeth. Bydd angen gweithio weithiau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol.	Hanfodol	Cyfweliad
Bydd angen ymweld â safleoedd a all gynnwys gweithio mewn tywydd garw, ymweld â safleoedd adeiladu a lleoliadau eraill lle mae angen i'n staff weithio.	Hanfodol	Cyfweliad
Medru gweithio oriau hyblyg, o leoliadau gwahanol, er mwyn cwrdd â gofynion y gwasanaeth. Bydd angen gweithio weithiau y tu hwnt i oriau swyddfa arferol.	Hanfodol	Cyfweliad
Trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd.	Hanfodol	Ffurflen gais, Cyfweliad

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y swydd hon, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Kate Thompson -e-bost katethompson@monmouthshire.gov.uk

neu

Nikki Wellington – e-bost nicolawellington@monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau: 12pm ar 27 Medi 2024

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr. ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithiwr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hon wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materion cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithiwr yn gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost byr i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgwrsiau estynedig gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgwrsiau gyda chydweithwyr am waith a chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol. ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith dydd i ddydd. ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyddestun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost at unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; rhoi esboniad; disgrifio profiad neu sefyllfa; gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.



➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa.

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith, a mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ac ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math, adroddiadau byr, dogfennau a llenyddiaeth gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg e.e. Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnogaeth offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau yn gywir ac yn hyderus.